23.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Steffan Cennydd yn dychwelyd i'w wreiddiau yn yr ail gyfres o'r ddrama llwyddiannus Yr Amgueddfa

Mae Steffan Cennydd (*Gwledd/Feast, Craith/Hidden, The Pembrokeshire Murders*) yn actor ifanc gyda dyfodol disglair o'i flaen e - ond roedd e wrth ei fodd i ddod nôl i fro ei febyd i ffilmio'r ail gyfres o'r ddrama S4C lwyddiannus **Yr Amgueddfa** yng Ngorllewin Cymru.

**Felly, Steffan pa mor braf oedd e i ti ffilmio yng Nghaerfyrddin?**

STEFFAN: Odd e'n hyfryd i weithio mor agos i adre. Dwi wedi bod yn mynd i Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili ers imi fod yn fachgen bach gyda'r ysgol ac maen nhw wedi gwneud llwyth o waith ar y lle yn ddiweddar i adnewyddu fe ac mae'n edrych yn grêt. Felly odd e'n rili neis i allu neud y mwyaf ohono fe a dangos e off ar y sgrin i bawb arall achos mae'n adeilad ffantastig.

Oni'n cadw gweld pobl oni'n nabod - pobl yn gweithio yn yr amgueddfa oni'n nabod. Roedd y cast yn aros yng ngwesty'r Ivy Bush ac mae fy ffrind i'n rhedeg yr Ivy Bush so oedd gen i'r *inside knowledge* i gyd. Er, nes i aros adre pan oni'n ffilmio so odd hwna'n neis.

**Beth sy'n digwydd yn yr ail gyfres o Yr Amgueddfa? Beth yw prif straeon Caleb y tro hwn?**
STEFFAN: Mae pethau wedi newid i Caleb. Yn y gyfres gynta', roedd Caleb yn cael ei reoli gan Fioled er mwyn cael at Della ond nawr bod hwnna wedi mynd, mae Caleb yn rhydd o'r diwedd ar ddiwedd y gyfres gynta'.

Yn yr ail gyfres, mae fe a Della yn symud i'r gorllewin tra bod e'n cwpla ei radd mewn hanes celf ac mae fe'n sgwennu ei draethawd hir pan maen nhw lawr 'na. Mae'n cael swydd rhan amser gyda menyw sy'n neud *house clearances* a thrwyddi hi mae e'n dod o hyd i ddarnau celf.

**Ydy cymeriad Caleb wedi newid ar ôl popeth a ddigwyddodd iddo yn y gyfres gyntaf?**
STEFFAN: Ydy Caleb wedi newid? Odd e'n rili diddorol dod at yr ail gyfres a theimlo fel - 'wel, da ni ddim cweit yn gwybod pwy yw'r boi 'ma. Da ni ddim rili yn ei nabod e heb yr *angst* ar *undercurrent* na lle mae e orfod neud y pethau hyn mae Fioled yn dweud wrtho fe neud'.

So odd e fel darganfod y person o'r newydd heb hynna i gyd. Pwy yw e pan mae e'n jysd ishte adre yn sortor'r tŷ mas neu gael amser neis heb ei fod e'n gorfod neud unrhyw beth o dan yr arwyneb. Jysd byw ei fywyd e a neud ei draethawd hir e.

So odd e'n rili neis ffeindio'r person 'na o'r newydd. Odd e fel darganfod y cymeriad '*backwards*' i'r ffordd ti arfer neud e.

**Mewn pa ffyrdd mae'r ail gyfres yn wahanol i'r gyfres gyntaf?**

STEFFAN: Mae teimlad rili wahanol - achos mae Della a Caleb wedi symud i ffwrdd, ac yn byw mewn ardal mor wledig. Mae’r tai yn hen - mae’r tai eu hunain fel cymeriadau hanesyddol. Mae rhai o’r lleoliadau yn *amazing*.

Maen nhw’n edrych fel petai eu bod nhw ar wyliau rhywle yn ne Ffrainc. Oni eitha’ lwcus gyda’r tywydd - mae’n edrych mor hafaidd a hamddenol. Mae e’n rili wahanol.

**Oedd e’n braf i weithio gyda chast a chriw Yr Amgueddfa unwaith eto?**

STEFFAN: Odd e’n hyfryd - ti’n troi mewn i deulu mawr pan ti’n neud *shoot* mor hir. Roedd e’n rili neis i ail-gydio yn hwnna a chroesawi bobol newydd hefyd.

Pan mae’r stori yn symud i ffwrdd o Gaerdydd i amgueddfa newydd da ni’n cwrdd â staff newydd a theuluoedd newydd hefyd. Odd e’n neis cyfuno’r hen a’r newydd - profiad rili hyfryd.

Mae’r bennod nesaf o **Yr Amgueddfa** ar S4C ar nos Sul, 8 Ionawr am 9.00yh. Neu gallwch wylio’r gyfres gyfan ar S4C Clic, gwasanaeth ar alw S4C.

**Yr Amgueddfa**
**Nos Sul 8 Ionawr 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

23.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Steffan Cennydd goes back to his roots in the second series of the successful drama Yr Amgueddfa

Steffan Cennydd (*Gwledd/Feast, Craith/Hidden, The Pembrokeshire Murders*) is a young actor with a glittering career before him – but he was delighted to go back to his home town to film the second series of the successful S4C drama **Yr Amgueddfa** (The Museum) in West Wales.

**So, Steffan how great was it for you to be filming in Carmarthen?**

STEFFAN: It was great to work so close to home. I have been going to Carmarthenshire Museum in Abergwili since I was a young boy with school. They've recently done loads of renovation work on the place and it looks great. So it was really nice to be able to make the most of it and show it off on the screen to everybody else because it's a fantastic building.

I kept seeing people I knew – there were people who worked in the museum that I knew. The cast was staying in the Ivy Bush hotel and my friend runs the Ivy Bush, so I had all the 'inside knowledge'. Although I stayed at my home when we were filming, so that was nice.

**What happens in the second series of Yr Amgueddfa? What are Caleb's main storylines this time?**

STEFFAN: Things have changed for Caleb. In the first series, Caleb was being controlled by Fioled (Delyth Wyn) in order to get to Della (Nia Roberts). But now that that is over, Caleb is free at last at the end of the first series.

In the second series, he and Della move to the west while he finishes his degree in art history and he is writing his dissertation while he is down there. He also gets a part-time job with a woman who does house clearances and through her, he finds pieces of art.

**Has Caleb's character changed after everything that happened to him in the first series?**

STEFFAN: Has Caleb changed? It was really interesting coming to the second series and feeling 'well, we don't really know who this bloke is. We don't really know him without the angst and that undercurrent where he did all these things Fioled made him do'.

So it was like discovering the person anew, without all this. Who is he when he is just sitting at home or sorting the house or having a nice time without having to do something under the surface. Just living his life and writing his dissertation.

So it was really nice finding this new person. It was like discovering the character backwards to the way you usually do it.

**In what way is the second series different to the first series?**

STEFFAN: It is a really different feeling – because Della and Caleb have moved away and are living in such a rural setting. The houses are old – the houses themselves are like historical characters. Some of the locations are amazing.

They look as if they are on holiday somewhere in the South of France. We were quite lucky with the weather – it looks really summery and relaxed. It's is really different.

**Was it nice to be back working with the cast and crew of Yr Amgueddfa once again?**

STEFFAN: It was lovely – you become one big family when you do such a long shoot. It was really nice to pick that up again and welcome new people too.

When the story moves away from Cardiff to a new museum, we meet new staff and new families too. It was nice mixing the old with the new – it was a really great experience.

The next episode of **Yr Amgueddfa** will be on Sunday, 8 January at 9.00pm but you can watch the entire series now on S4C Clic – S4C's on demand service.

**Yr Amgueddfa**
**Sunday 8 January 9.00pm, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**